# Mewnforio olewau coginio

Canllawiau ar drwyddedu, labelu, pecynnu a diogelwch cemegol wrth fewnforio olewau coginio.

## Gwybodaeth gyffredinol

Mae'n rhaid i olewau coginio a gaiff eu mewnforio o wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd (UE) fodloni'r un safonau a gweithdrefnau hylendid bwyd a chyfansoddiad â bwyd a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig (DU) neu Aelod-wladwriaethau eraill yr UE. Fel arfer, nid oes angen tystysgrif iechyd arnoch chi i fewnforio olewau coginio.

## Trwyddedau mewnforio

Efallai na fydd angen trwydded iechyd neu hylendid arnoch chi i fewnforio bwyd, ond mae llawer o fwydydd o wledydd y tu allan i'r UE yn gofyn am drwyddedau at ddibenion masnachu, ac efallai y byddant yn destun cwotâu.
I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Asiantaeth Taliadau Gwledig trwy e-bostio Trader@rpa.gsi.gov.uk.

## Lliwiau, cyflasynnau a melysyddion bwyd

Mae rhai olewau'n cynnwys lliwiau, cyflasynnau (flavourings) a melysyddion bwyd. Er ei bod yn bosibl bod yr awdurdod bwyd wedi cymeradwyo'r rhain yn y wlad tarddiad, efallai na fydd rhai wedi'u cymeradwyo yn yr UE.

I gael gwybodaeth am gyflasynnau, melysyddion, lliwiau a chyffeithyddion (preservatives) bwyd, cysylltwch â Thîm Ychwanegion Bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd drwy ein ffurflen ar-lein.

## Labelu

Mae gwybodaeth gyffredinol am labelu bwyd ar gael ar wefan GOV.UK.

I gael cyngor ar labelu cynhyrchion penodol, cysylltwch ag Adran Safonau Masnach neu Adran Iechyd yr Amgylchedd eich awdurdod lleol.

## Olew olewydd

Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn rhoi gwybodaeth am y safonau marchnata ar gyfer olew olewydd.

## Cynhyrchion organig

Os ydych chi'n mewnforio cynhyrchion organig (cynhyrchion amaethyddol byw neu heb eu prosesu, cynhyrchion amaethyddol wedi'u prosesu i'w defnyddio fel bwyd neu fwyd anifeiliaid, deunydd ysgogi llystyfiant a hadau i'w tyfu) o du allan i'r UE, mae angen i chi gysylltu â'r Tîm Mewnforion Organig yn DEFRA.

## Deunydd pecynnu

Mae deunyddiau ac eitemau a ddaw i gysylltiad â bwyd, gan gynnwys y rhai a ddefnyddir i becynnu bwyd, yn cael eu rheoli gan ddeddfwriaeth gyson a chynhwysfawr yr UE, sydd wedi'i gweithredu'n llawn yn y DU.

Mae'r ddeddfwriaeth yn arbennig o drylwyr wrth reoli deunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir eu defnyddio ar gyfer bwyd. I gael gwybodaeth am ddiogelwch deunydd pecynnu, cysylltwch â'r Tîm Deunyddiau a Ddaw i Gysylltiad â Bwyd drwy ein ffurflen ar-lein.

## Hylendid bwyd

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol ynghylch hylendid bwyd, cysylltwch â'r Tîm Polisi Hylendid Bwyd.

## Plaladdwyr

I gael gwybodaeth am lefelau diogelwch plaladdwyr, cysylltwch â Chyfarwyddiaeth Rheoleiddio Cemegau yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

## Halogion

Nodyn cyfarwyddyd ar Halogion yn Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Lloegr) 2013, sy'n darparu ar gyfer deddfu a gorfodi Rheoliadau'r Comisiwn sy'n gosod terfynau rheoleiddiol ar gyfer halogion mewn bwyd (nitrad, mycotocsinau, metelau, deuocsinau 3-MCPD a hydrocarbonau aromatig polcyclic).

Gweler ein canllawiau i fusnesau ar halogion.

## Cyfyngiadau mewnforio

Mae yna rai cyfyngiadau/gofynion mewnforio eraill a all fod yn berthnasol wrth fewnforio olewau coginio , ac mae angen i fewnforwyr fod yn ymwybodol ohonynt.

### Cynhyrchion "risg uwch"

Dim ond drwy borthladdoedd a meysydd awyr penodol sydd wedi'u cymeradwyo fel pwyntiau mynediad dynodedig y gellir mewnforio rhai bwydydd a bwydydd anifeiliaid penodol nad ydynt yn dod o anifeiliaid a gaiff eu hystyried i beri "risg uwch".

Bydd y rhain yn destun rheolaethau swyddogol. Mae cynnyrch "risg uwch" yn gynnyrch bwyd neu fwyd anifeiliaid y mae'n hysbys ei fod yn peryglu iechyd y cyhoedd, neu fod hynny'n dod i'r amlwg.

### Cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid

Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) sy'n delio â'r rheolau ar gyfer mewnforio olewau coginio sy'n dod o anifeiliaid. Mae APHA yn Asiantaeth Weithredol sy'n perthyn i Defra.

Mae gwybodaeth am fewnforio olewau coginio sy'n cynnwys pysgod cregyn neu bysgod, neu eu cynhyrchion, ar gael ar-lein.